Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Parc Y Bont
# Llanddaniel Fab
# Ynys Môn
# LL60 6ES

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 23/12/2014**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Parc y Bont wedi ei lleoli yng nghanol pentref Llanddaniel Fab ar Ynys Môn. Mae'n gwasanaethu pentref Llanddaniel, plwyf Llanedwen, a'r ardaloedd gwledig o'u hamgylch. Mae'n ysgol sydd o dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru ac mae'n cael ei chynnal gan awdurdod lleol Ynys Môn.

Mae 14 o ddisgyblion meithrin rhan amser a 90 o ddisgyblion amser llawn ar gofrestr yr ysgol. Derbynnir plant i'r ysgol yn rhan amser yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed, ac yn llawn amser yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae pedair dosbarth, sy'n cynnwys disgyblion o oedrannau cymysg. Daw tua 39% y disgyblion o'r tu allan i ddalgylch yr ysgol.

Daw 48% o ddisgyblion o gartrefi lle siaredir Cymraeg. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dod o gefndir gwyn Prydeinig, gyda thua 6% yn dod o gefndiroedd ethnig gwahanol. Mae bron i 9% o ddisgyblion yn gymwys i gael cinio ysgol am ddim, sy'n is na'r canrannau sirol a chenedlaethol. Mae ychydig dros 20% o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n agos i'r cyfartaledd cenedlaethol. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Nhachwedd 2008. Mae pennaeth mewn gofal yn yr ysgol ers Medi 2013.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Parc Y Bont yn 2014-2015 yw £4,019. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Ynys Môn yw £9,552 a'r lleiafswm yw £2,870. Mae Ysgol Parc Y Bont yn y 27ain safle o'r 48 ysgol gynradd ar Ynys Môn o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod safonau a chynnydd rhan fwyaf y disgyblion yn gyson a phriodol i'w hoed a'u gallu;
- bod medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n effeithiol;
- bod medrau siarad a gwrando rhan fwyaf y disgyblion yn dda;
- bod medrau llafar y disgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n gyflym; a
- bod ymddygiad bron pob disgybl yn gyson dda.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod holl staff yr ysgol yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i gyflawni gwelliannau;
- bod aelodau'r corff llywodraethol yn cefnogi ac yn herio'r ysgol, gan weithredu'n effeithiol fel ffrindiau beirniadol;
- bod deilliannau'r hunanarfarnu yn darparu asesiad cywir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu;
- bod arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn dda; a
- bod yr ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod eang o bartneriaid er lles a datblygiad y disgyblion.

## Argymhellion

A1 Datblygu ymhellach ysgrifennu estynedig y disgyblion ar draws y cwricwlwm

A2 Datblygu cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio a chymhwyso eu medrau rhifedd ar lefel briodol ar draws y cwricwlwm

A3 Sicrhau cyfleoedd pellach i ddisgyblion ymateb i adborth ysgrifenedig yr athrawon er mwyn gwella eu gwaith

A4 Datblygu arferion gorau'r addysgu ar draws yr ysgol a sicrhau bod cyflymder da i bob gwers

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion lefel dda o allu yn y medrau sylfaenol ar fynediad i'r ysgol ac eithrio yn y Gymraeg, lle mae'r iaith yn newydd i bron hanner ohonynt. Mae safonau a chynnydd rhan fwyaf y disgyblion yn gyson a phriodol i'w hoed a'u gallu.

Mae medrau llafar rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn dda. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall y rhan fwyaf fynegi barn yn glir, gan roi rhesymau a chynnig atebion priodol i gwestiynau. Maent yn gwrando yn ofalus ar eraill gan ganolbwyntio am gyfnodau estynedig. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn siarad yn eglur, gan ddefnyddio iaith ffurfiol yn llwyddiannus. Mae medrau llafar y disgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n gyflym. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn trafod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg gan ddefnyddio ystod gynhwysfawr o eirfa addas wrth fynegi barn a siarad am eu gwaith.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion hŷn y Cyfnod Sylfaen yn darllen yn ystyrlon gyda rhuglder a mynegiant clir. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio ystod o strategaethau i ddeall ystyr geiriau a brawddegau yn effeithiol, gan gynnwys eu gwybodaeth fedrus am ffoneg. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos dealltwriaeth drwyadl o brif bwyntiau a manylion arwyddocaol mewn testunau. Mae llawer ohonynt yn defnyddio a dethol gwybodaeth o ffynonellau gwahanol, fel y we, yn effeithiol. Maent yn ymddiddori mewn llyfrau ac yn datblygu i fod yn ddarllenwyr annibynnol. Mae'r mwyafrif yn gallu defnyddio ystod o strategaethau i gip ddarllen yn effeithiol, er enghraifft er mwyn canfod y prif ffeithiau am ddigwyddiadau hanesyddol fel trychineb Aberfan.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu'n effeithiol i ystod o ddibenion. Gallent ysgrifennu dilyniant o frawddegau gyda chywirdeb. Er hynny, nid yw llawysgrifen a chyflwyniad gwaith ychydig o ddisgyblion yn ddigon taclus bob amser. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n effeithiol mewn ystod o ffurfiau yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan ddangos gafael sicr ar fedrau atalnodi. Maent yn ysgrifennu'n bwrpasol mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Er hyn, anghyson yw'r enghreifftiau ar draws yr ysgol o ddisgyblion yn ysgrifennu'n estynedig.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn briodol. Maent yn defnyddio ffeithiau rhif a'r berthynas rhwng rhifau yn gywir, er enghraifft wrth adio a thynnu rhifau dau ddigid. Serch hynny, nid yw'r lleiafrif o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd i'r un graddau ar draws y cwricwlwm. Yng nghyfnod allweddol 2, gall llawer o ddisgyblion ddefnyddio eu medrau rhif yn briodol ar draws rhai meysydd eraill y cwricwlwm. Gallent ddarllen ac ysgrifennu rhifau hyd at filiwn a rhifau i dri lle degol yn gywir. Maent yn adio a thynnu rhifau drwy ddefnyddio rhifau cyfan a degolion yn llwyddiannus.

Mae'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda ar lefel sy'n cyfateb i'w gallu.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, dros gyfnod o dair blynedd, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) o'i gymharu ag ysgolion tebyg wedi amrywio rhwng y 50% is a'r 25% uchaf. Yn 2014, roedd perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig yn yr 50% uwch mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol. Yn gyffredinol, dros y tair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad ar y deilliant uwch (deilliant 6) wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf ym mhob maes dysgu. Yn 2014, roedd perfformiad ar y lefel hon yn y 25% isaf ym mhob maes dysgu.

Dros y blynyddoedd diwethaf, roedd nifer cymharol fach o ddisgyblion (deg neu lai) yn y grwpiau blwyddyn ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 gan yr ysgol yn aml. Gall hyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad meincnod yr ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg ac o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel 4 ddisgwyliedig wedi amrywio dros y pedair blynedd ddiwethaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Yn 2014, mae'r perfformiad yn gosod yr ysgol o fewn y 25% uchaf ym mhob pwnc craidd.

Yn 2014, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch (lefel 5) mewn Saesneg a mathemateg yn ei gosod yn y 50% uwch. Mae perfformiad mewn Cymraeg yn gosod yr ysgol o fewn y 25% isaf a pherfformiad mewn gwyddoniaeth o fewn y 50% is. Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad mewn Saesneg ac mewn mathemateg wedi gosod yr ysgol yn y 50% uwch. Yn gyffredinol, mae perfformiad wedi bod o fewn y 50% is neu'r 25% isaf mewn Cymraeg a gwyddoniaeth.

Nid oes patrwm arwyddocaol o wahaniaeth yng nghyflawniad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim o'u cymharu â'u cyfoedion. Yn gyffredinol, mae perfformiad merched yn well na pherfformiad bechgyn dros gyfnod o amser.

**Lles: Da**

Mae bron bob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod y gallant droi at aelodau o staff am gymorth pan fo angen. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymwybodol o'u diogelwch personol a phwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach. Mae ymddygiad bron pob disgybl yn gyson dda tuag at staff, ymwelwyr a thuag at ei gilydd. Maent yn ymdrin â phawb gyda pharch a chwrteisi. Mae'r disgyblion hŷn yn foesgar iawn tuag at ddisgyblion iau yr ysgol, gan roi cymorth meddylgar iddynt yn aeddfed. Mae medrau dysgu annibynnol mwyafrif y disgyblion yn datblygu'n briodol.

Mae llais y disgybl yn gryf yn yr ysgol. Trwy'r cynghorau ysgol, eco a chwaraeon gweithgar, mae llawer o ddisgyblion wedi awgrymu syniadau i wella'r ysgol gan gymryd cyfrifoldeb dros eu gweithredu. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfrannu'n helaeth at waith elusennol drwy godi arian a chymryd rhan mewn digwyddiadau cymdeithasol yn y gymuned. Mae hyn yn datblygu eu medrau cymdeithasol a'u medrau bywyd yn effeithiol.

Ychydig dros 95% yw canran presenoldeb disgyblion am y flwyddyn addysgol ddiwethaf. Mae hyn yn parhau â'r duedd o welliant dros dair blynedd, ac yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu amrywiol yn llwyddiannus. Mae'r cwricwlwm yn gytbwys ac yn ymdrin â holl ofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol yn effeithiol. Mae'r cynllunio drwy'r ysgol yn bodloni anghenion disgyblion y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn llwyddiannus.

Mae athrawon yn adolygu ac addasu eu cynlluniau yn effeithiol ac yn sicrhau eu bod yn adeiladu'n briodol ar ddysgu blaenorol. Mae gan yr ysgol gynlluniau gwaith addas sydd yn bodloni gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol. Mae profiadau disgyblion yn cael eu cyfoethogi yn effeithiol gan ymweliadau addysgol a thrwy ystod dda o weithgareddau ymarferol diddorol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig mewn amrywiol gyd-destunau yn gyfoethog ac yn galluogi'r disgyblion i wneud cynnydd da.

Rhoddir lle blaenllaw yn y cynllunio ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu, llythrennedd, rhif, TGCh a medrau meddwl disgyblion. Fodd bynnag, nid oes bob amser ddigon o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar y lefel briodol ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn dda. Drwy waith y cyngor eco, mae'r disgyblion yn cynyddu eu hymwybyddiaeth o faterion fel ailgylchu ac arbed ynni ac yn helpu'r ysgol i weithredu'n gynaliadwy. Datblygir ymwybyddiaeth disgyblion o ddinasyddiaeth byd eang yn effeithiol drwy wahodd cyfraniadau gan bobl o wledydd a diwylliannau eraill.

**Addysgu: Da**

Mae perthynas waith effeithiol yn bodoli rhwng y disgyblion a'r staff, sy'n cyfrannu at ddysgu buddiol. Mae gan yr athrawon wybodaeth gyfoes am yr holl feysydd dysgu ac maent yn defnyddio ystod o strategaethau priodol i ysgogi dysgu'r disgyblion. Mae staff cynorthwyol yn cefnogi'r dysgu yn effeithiol, yn enwedig wrth gefnogi disgyblion ag anghenion ychwanegol.

Mae'r holl staff yn modelu iaith safonol yn dda ac mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at gryfhau iaith lafar y disgyblion. Yn yr addysgu mwyaf effeithiol, mae athrawon yn cwestiynu disgyblion yn fedrus ac mae'r gwersi yn adeiladu'n dda ar ddysgu blaenorol. Mae athrawon yn darparu tasgau diddorol ac yn sicrhau bod y disgyblion wedi'u cymell yn llwyddiannus, gan ddangos diddordeb brwd yn eu dysgu. Yn yr ychydig o wersi lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, mae cyflwyniadau'n hir ac nid yw'r gweithgareddau bob amser yn ymestyn disgyblion mwy abl. Mewn ychydig iawn o ddosbarthiadau, mae gorddefnydd o daflenni gwaith parod yn llesteirio dysgu annibynnol y disgyblion.

Mae adborth llafar y rhan fwyaf o athrawon i waith y disgyblion yn ystod gwersi yn adeiladol, ac mae'r disgyblion yn derbyn cyfleoedd priodol i ymateb iddynt. Mae sylwadau ysgrifenedig y rhan fwyaf o athrawon yn annog y disgyblion i wella eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw ychydig o'r sylwadau yn rhoi digon o arweiniad i ddisgyblion ar yr hyn sydd angen iddyn nhw ei wneud er mwyn gwella.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trwyadl ar gyfer asesu, monitro a chofnodi cynnydd disgyblion. Mae'r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o brofion safonol a data olrhain cynnydd. O ganlyniad, mae gan staff wybodaeth dda ar gyfer blaenoriaethu cefnogaeth briodol ar gyfer disgyblion sy'n tangyflawni a gwella'r ddarpariaeth ar eu cyfer. Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi ymsefydlu'n briodol.

Mae'r rhieni yn derbyn gwybodaeth gynhwysfawr ac effeithiol am gynnydd eu plant ac mae'r adroddiadau blynyddol yn ymateb yn llawn i'r gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae Parc y Bont yn ysgol hapus lle teimla'r disgyblion yn ddiogel. Mae'r profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol disgyblion yn llwyddiannus, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo lles y disgyblion yn effeithiol, gan sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd priodol wrth symud ymlaen i'r camau nesaf yn eu dysgu. Caiff pwysigrwydd iechyd corfforol ei bwysleisio'n effeithiol iawn drwy'r cwricwlwm a'r ystod eang o weithgareddau allgyrsiol. Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Rhoddir cymorth cynhwysfawr ar faterion addysgol, cymdeithasol a phersonol y disgyblion. Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus gydag asiantaethau allanol ac yn sicrhau bod y disgyblion yn elwa o'r cymorth, er enghraifft drwy waith therapyddion galwedigaethol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae'r ysgol yn adnabod anghenion yn gynnar ac yn sicrhau'r gefnogaeth angenrheidiol. Mae gan ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol fynediad llawn i holl feysydd y cwricwlwm ac mae eu cynlluniau addysg unigol yn drwyadl, yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, ac yn cynnwys barn rhieni.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol sy'n cynnig amgylchedd diogel a chroesawgar i'r holl ddisgyblion. Mae iddi ethos gofalgar ac mae'r staff yn hyrwyddo agweddau cadarnhaol iawn. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y disgyblion o ran eu brwdfrydedd tuag at eu gwaith a'u hyder yn gymdeithasol. Mae polisïau a gweithdrefnau priodol yn sicrhau mynediad cyfartal i'r ddarpariaeth ac yn hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol yn effeithiol. Mae parch at wahaniaeth a chydraddoldeb hiliol yn cael ei hyrwyddo'n llwyddiannus drwy raglenni addysg bersonol a chymdeithasol a thrwy hyrwyddo gwerthoedd.

Mae'r adeilad a'r safle yn hygyrch i bawb, ac fe wneir defnydd effeithiol ohono ar gyfer ystod o weithgareddau cymunedol. Mae'r ardaloedd dysgu yn cynnig amgylchedd symbylus sy'n darparu'n effeithiol ar gyfer anghenion y disgyblion. Gwna'r ysgol ddefnydd llwyddiannus o'r awyr agored er mwyn darparu ardaloedd

diddorol i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen ddysgu a chwarae ynddynt. Mae digon o adnoddau sy'n gweddu'n briodol i anghenion y disgyblion, gan gynnwys offer technoleg gwybodaeth ddefnyddiol. Mae'r amgylchedd dysgu ym mhob dosbarth yn lliwgar, ac yn dathlu ymdrechion y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r adeilad a thir yr ysgol yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn cael eu cynnal a'u cadw yn raenus.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth mewn gofal weledigaeth glir i arwain ysgol lle mae pob disgybl yn bwysig ac yn cyrraedd ei lawn botensial. Mae'n cyfleu'r weledigaeth yn llwyddiannus i'r staff, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr. Mae cyfarfodydd staff yn canolbwyntio'n glir ar flaenoriaethau gwella. Mae hyn yn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'u rolau wrth gyflawni blaenoriaethau'r ysgol yn effeithiol. Mae holl staff yr ysgol yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i gyflawni gwelliannau. Mae trefniadau rheoli perfformiad trylwyr yn cyfrannu'n fuddiol at welliannau mewn dysgu ac addysgu ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo datblygiad proffesiynol yr athrawon a'r cymorthyddion.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn cefnogi ac yn herio'r ysgol yn dda, gan weithredu'n effeithiol fel ffrindiau beirniadol. Maent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn ymateb yn briodol i ofynion statudol. Maent yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i graffu ar waith disgyblion ac maent yn derbyn adroddiadau cynhwysfawr ar ei pherfformiad. O ganlyniad, mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gynhwysfawr o berfformiad yr ysgol mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill y teulu, yr awdurdod ac yn genedlaethol.

Mae'r ysgol yn gweithredu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn llwyddiannus ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y safonau a'r ddarpariaeth.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn gynhwysfawr ac yn adnabod yn glir y meysydd i'w datblygu o fewn yr ysgol. Mae sylwadau a barn staff, rhieni, llywodraethwyr a'r disgyblion yn rhan allweddol o'r broses. Defnyddir ystod dda o weithgareddau monitro effeithiol gan gynnwys dadansoddi data, arsylwi gwersi ac edrych ar waith disgyblion. Mae deilliannau'r prosesau hyn yn darparu asesiad cywir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu, ac o ganlyniad, mae arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn dda.

Mae cyswllt clir rhwng deilliannau'r weithdrefn hunanarfarnu a chynllun datblygu'r ysgol. Mae gan y staff a'r llywodraethwyr rolau perthnasol mewn creu, gweithredu a monitro agweddau penodol o'r cynllun datblygu. Mae'r cynllun yn ddogfen weithredol sy'n cynnwys targedau mesuradwy ac yn clustnodi symiau synhwyrol o gyllid i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau. Mae hyn yn galluogi arweinwyr i fonitro ac adolygu cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau yn effeithiol er mwyn sicrhau gwelliannau pellach. Mae'r cynllun yn adolygu targedau'r blynyddoedd blaenorol yn drwyadl ac yn nodi materion pellach sydd angen eu gweithredu.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r ysgol yn gweithio’n effeithiol gydag ystod eang o bartneriaid er lles a datblygiad y disgyblion. Ceir partneriaeth gref gyda’r rhieni, sy’n gefnogol iawn o waith yr ysgol. Mae'r ysgol yn elwa o weithgareddau rheolaidd cyfeillion yr ysgol i brynu adnoddau dysgu addas sy'n cyfoethogi dysgu'r disgyblion. Enghraifft dda o hyn yw’r gysgodfa allanol at ddefnydd disgyblion y Cyfnod Sylfaen. Mae’r rhieni hefyd wedi cydweithio ag aelodau o’r clwb ieuenctid lleol i ddatblygu ardal wyllt fuddiol ar dir yr ysgol.

Mae'r berthynas â'r gymuned yn llwyddiannus. Mae’r ysgol yn chwarae rhan weithredol mewn nifer o ddigwyddiadau cymunedol. Er enghraifft, perfformiadau côr yr ysgol mewn cyngherddau lleol. Mae aelodau o’r gymuned yn ymweld â’r ysgol yn rheolaidd i wrando ar ddisgyblion yn darllen. Mae’r cysylltiadau agos hyn yn dylanwadu'n gadarnhaol ar ddatblygiad a phrofiadau dysgu’r disgyblion ac maent yn helpu i ffurfio cysylltiad cymunedol gref.

Mae partneriaethau buddiol hefyd yn bodoli gyda nifer o asiantaethau'r awdurdod lleol a’r awdurdod iechyd, sy'n cael effaith bositif ar ddatblygiad lles a chyrhaeddiad disgyblion.

Mae cysylltiadau agos wedi eu meithrin gyda grŵp cyn-ysgol. Mae hyn yn sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n fuan wrth gychwyn yn yr ysgol. Mae'r athrawon yn cydweithio’n effeithiol gydag ysgolion cyfagos a'r ysgol uwchradd. Mae'r staff yn elwa o'r profiadau hyn ac yn cynyddu eu harbenigedd wrth asesu gwaith disgyblion a rhannu arfer dda. Mae'r trefniadau trosglwyddo ar gyfer y clwstwr o ysgolion a'r ysgol uwchradd yn galluogi'r disgyblion hŷn i baratoi yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol ddigon o staff addysgu a staff cymorth arbenigol a phrofiadol i ymdrin â phob agwedd o gwricwlwm yr ysgol. Mae cymorthyddion dosbarth yn cydweithio'n effeithiol gyda'r athrawon ac yn cefnogi'r disgyblion yn llwyddiannus wrth eu gwaith. Mae'r trefniadau ar gyfer cyfnodau cynllunio, paratoi ac asesu yn briodol ac yn cyfrannu'n dda tuag at ddatblygu cynllunio effeithiol ac olrhain cynnydd y disgyblion. Mae'r prosesau manwl ar gyfer rheoli perfformiad yr holl staff yn arwain at bennu targedau synhwyrol sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau'r ysgol a’u datblygiad proffesiynol. Mae hyn yn cael dylanwad cadarnhaol ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu.

Mae cyflenwad da o adnoddau ar gyfer y disgyblion er mwyn bodloni gofynion holl agweddau'r cwricwlwm a gwneir defnydd effeithiol o'r adeilad.

Mae'r staff yn manteisio ar bob cyfle i ddatblygu eu harbenigedd drwy fod ynghlwm â nifer o rwydweithiau dysgu proffesiynol buddiol. Mae hyn wedi galluogi'r athrawon i ddatblygu eu gwybodaeth a'u medrau, ac i rannu arfer dda ymysg ei gilydd.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd addas o'r grant amddifadedd i gefnogi grwpiau penodol o ddisgyblion. Gyda chefnogaeth swyddog yr awdurdod lleol a'r corff llywodraethol, mae'r pennaeth mewn gofal yn rheoli'r defnydd o adnoddau ariannol yn effeithiol i gefnogi blaenoriaethau'r ysgol.

O ystyried y deilliannau da a’r defnydd darbodus o’r cyllid, mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6603034 - Ysgol Gynradd Parc y Bont**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 101 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 11.3 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 15 | 10 | 17 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 80.0 | 100.0 | 94.1 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 2 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 15 | 10 | 17 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 80.0 | 100.0 | 94.1 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 40.0 | 50.0 | 11.8 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 4 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 15 | 10 | 17 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 93.3 | 100.0 | 94.1 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 20.0 | 50.0 | 5.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 15 | 10 | 17 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 93.3 | 100.0 | 94.1 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 33.3 | 90.0 | 17.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 4 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6603034 - Ysgol Gynradd Parc y Bont**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 101 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 11.3 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 9 | 8 | 14 | 9 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 77.8 | 87.5 | 78.6 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 4 | 1 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 9 | 8 | 14 | 9 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 77.8 | 87.5 | 92.9 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 2 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 66.7 | 37.5 | 42.9 | 44.4 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 2 | 2 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 9 | 8 | 14 | 9 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 77.8 | 75.0 | 92.9 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 2 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 22.2 | 25.0 | 21.4 | 22.2 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 | 4 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 9 | 8 | 14 | 9 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 88.9 | 87.5 | 78.6 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 22.2 | 37.5 | 42.9 | 44.4 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 2 | 2 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 9 | 8 | 14 | 9 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 77.8 | 87.5 | 85.7 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 22.2 | 12.5 | 14.3 | 33.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 3 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), Mathemateg a Gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 45 | 45<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 45 | 42<br>93%<br>92% | 3<br>7%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 45 | 45<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 45 | 45<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 45 | 44<br>98%<br>96% | 1<br>2%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 45 | 42<br>93%<br>96% | 3<br>7%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 45 | 45<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 45 | 45<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 45 | 40<br>89%<br>91% | 5<br>11%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 45 | 42<br>93%<br>95% | 3<br>7%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 45 | 39<br>87%<br>77% | 6<br>13%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 45 | 34<br>76%<br>84% | 11<br>24%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 33 | 25 | 4 | 2 | 1 | 1 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 76% | 12% | 6% | 3% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 33 | 25 | 6 | 0 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 76% | 18% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 33 | 28 | 4 | 0 | 0 | 1 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 85% | 12% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 33 | 25 | 4 | 1 | 2 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 76% | 12% | 3% | 6% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 33 | 21 | 12 | 0 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 64% | 36% | 0% | 0% | | |
| | | 45% | 45% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 33 | 25 | 4 | 2 | 1 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 76% | 12% | 6% | 3% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 33 | 23 | 9 | 1 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 70% | 27% | 3% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 32 | 19 | 4 | 1 | 3 | 5 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 59% | 12% | 3% | 9% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 33 | 23 | 6 | 2 | 1 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 70% | 18% | 6% | 3% | | |
| | | 58% | 33% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 32 | 25 | 7 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 78% | 22% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 33 | 22 | 11 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 32 | 17 | 3 | 1 | 2 | 9 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 53% | 9% | 3% | 6% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 32 | 17 | 8 | 4 | 1 | 2 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 53% | 25% | 12% | 3% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 33 | 22<br>67% | 7<br>21% | 2<br>6% | 1<br>3% | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 32 | 23<br>72% | 8<br>25% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 45% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 33 | 20<br>61% | 5<br>15% | 3<br>9% | 0<br>0% | 5 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 26 | 10<br>38% | 2<br>8% | 3<br>12% | 1<br>4% | 10 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 33 | 22<br>67% | 5<br>15% | 2<br>6% | 0<br>0% | 4 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 32 | 22<br>69% | 7<br>22% | 2<br>6% | 1<br>3% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 32% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Anthony John Bate | Arolygydd Cofnodol |
| Sioned Thomas | Arolygydd Tîm |
| Jeremy Turner | Arolygydd Lleyg |
| Alun Williams | Arolygydd Cymheiriaid |
| Gerallt Jones | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.